

CYNLLUN GWERS CALCH			
Pwnc	Uned	Gwers	Cyfnod Allweddol
Daearyddiaeth	1	Tirwedd galchfaen	CA2/3
<p>Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhai disgyblion yn deall bod yna fanteision ac anfanteision cymhleth wrth ystyried cloddio. • Bydd mwyafrif y disgyblion yn ffurfio barn o blaid neu yn erbyn cloddio. • Bydd pob disgybl yn deall bod y dirwedd wedi'i ffurfio dros filiynau o flynyddoedd. 			
<p>Geiriau allweddol: calchfaen, chwarel, cloddio, ffosilau</p>			
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Defnyddiwch y PowerPoint i gyflwyno'r project CALCH a'r ardal sydd i'w thrafod yn ystod yr unedau. Map lleoliad o'r chwarel a delweddau o'r safle, gyda thrafodaeth fer ar ystyr cloddio.</p>			<p>Amseru (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p>5 mun</p>
<p>Prif ran:</p> <p>Bydd y wers hon yn edrych ar sut mae tirwedd galchfaen yn cael ei ffurfio dros filiynau o flynyddoedd.</p> <p>Gweithgaredd un: Mae'r PowerPoint yn dangos delweddau o ffosilau. Mewn grwpiau, gofynnir i'r disgyblion edrych ar y delweddau o'r ffosilau a thrafod cwestiynau: <i>Beth ydy ffosil? Pa mor hen ydy'r ffosilau hyn? Beth oedd y creadur ffosiledig?</i></p> <p>Mae cardiau fflach yn cael eu dosbarthu i bob grŵp wedyn i'w helpu i roi trefn ar ddogwyddiadau. Ceir trafodaeth ddosbarth i ddilyn er mwyn sicrhau bod y cardiau yn y drefn gywir gan y disgyblion.</p>			<p>5-10 mun</p> <p>10 mun</p>
<p>Gweithgaredd dau: Gall y disgyblion wedyn greu bwrdd stori i ddangos sut mae creadur môr penodol wedi troi'n galchfaen dros amser. Gallan nhw ddefnyddio'r wybodaeth ar y cardiau fflach i'w helpu.</p>			<p>10-20 mun</p>
<p>Gweithgaredd tri: Bydd hyn yn dibynnu ar y cyfnod allweddol – gall fod amser ar ôl ar ddiwedd y wers. Gofynnwch i'r disgyblion dychmygu nad ydy'r mynydd wedi'i gloddio o'r blaen. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp, un sy'n cefnogi cloddio a'r llall sydd am gadw'r dirwedd. Gofynnwch i'r ddau grŵp gyflwyno'u safbwyntiau ar ffurf dadl. Yn ystod y ddadl, os bydd angen, gall yr athro gyflwyno nifer o fanteision ac anfanteision.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yna effaith ar fywyd gwyllt • Mae angen calchfaen ar gyfer diwydiant • Y graith fydd yn cael ei gadael ar y dirwedd • Mae calch yn cael ei ddefnyddio i wrteithio'r tir fel bod cynydu'n tyfu 			<p>10-20 mun</p>
<p>Gwaith cartref/tasg ymestynnol:</p> <p>Ydy cloddio'n beth da neu'n beth drwg? Eglurwch eich ateb.</p> <p>Ar gyfer cyfnodau allweddol diweddarach, gallai'r disgyblion rannu manteision ac anfanteision y ddadl yn rhai cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.</p>			

<p>Sesiwn lawn: I gloi, gall yr athro asesu'r hyn a ddysgwyd gan y disgyblion trwy ofyn cyfres o gwestiynau. Gorffennwch gyda phleidlais ddosbarth – a ddylai cloddio gael ei ganiatáu? Dylai neu na ddylai?</p> <p>Nodwch: Os bydd ymweliad â'r safle'n cael ei drefnu, dylid sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r angen i wisgo dillad ac esgidiau priodol, gan hefyd roi ystyriaeth i dywydd gwael a thywydd poeth. Dylid sicrhau bod y disgyblion hefyd yn gwybod a ddylen nhw ddod â phegyn bwyd ai peidio.</p>	5 mun
<p>Gwahaniaethu: Ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog, edrychwch ar y tasgau ymestynnol. Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau heb orfod cael adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, os bydd angen iddyn nhw gwblhau'r gwaith cartref, dylid darparu ffrâm ysgrifennu ar eu cyfer.</p>	
<p>Asesu: Bydd yr asesu'n cael ei seilio ar y drafodaeth ddosbarth, y sesiwn cwestiwn ac ateb ar ddiwedd y wers ac ar y bwrdd stori.</p>	
<p>Adnoddau: Mae PowerPoint, cardiau fflach, templed bwrdd stori a ffrâm ysgrifennu ar gyfer y dasg ymestynnol i gyd ar gael ar gyfer y wers hon.</p>	
<p>Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd: Llythrennedd – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol</i> • <i>Cyfrannu at drafodaeth grŵp</i> • <i>Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw</i> • <i>Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau gwahanol</i> • <i>Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol</i> <p>Rhifedd – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau</i> 	